




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau

CLWYD

Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Absennol o'r Gwaith

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad	3
A fyddwch chi'n dal yn cronni pensiwn yn ystod absenoldeb di-dâl?	3
Fedrwch chi brynu pensiwn coll yn ôl?	3
Beth am Absenoldebau heb awdurdod?	3
Sut caiff cost prynu pensiwn coll ei chyfrifo?	3
Sut ydych chi'n prynu pensiwn coll yn ôl?	4
Beth os ydych chi'n penderfynu peidio â phrynu eich pensiwn coll yn ôl?	4
Beth sy'n digwydd os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol?	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad	5

Cyflwyniad

Mae'ch buddion pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu heffeithio gan absenoldebau di-dâl awdurdodedig a heb awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r daflen ffeithiau hon yn mynd i fanylder i absenoldebau yn ymwneud a phlant. I gael gwybodaeth am hynny, darllenwch daflen ffeithiau Mamolaeth, Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir sydd ar gael dan yr adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

A fyddwch chi'n dal yn cronni pensiwn yn ystod absenoldeb di-dâl?

Yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig neu heb awdurdod, ni fyddwch yn cronni rhagor o fuddion pensiwn yn ystod y cyfnod hwnnw. Gelwir hyn yn bensiwn coll.

Cofiwch, nid yw'ch pensiwn yn cael ei effeithio os ydych chi'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu anaf. Ni fyddwch yn colli unrhyw bensiwn yn ystod absenoldeb oherwydd salwch.

Fedrwch chi brynu pensiwn coll yn ôl?

Pan fyddwch chi'n dychwelyd i'r gwaith, gallwch ddewis prynu'r pensiwn rydych chi wedi'i golli drwy gontract cyfraniad pensiwn ychwanegol.

Ar gyfer cyfnod awdurdodedig o absenoldeb di-dâl, gellir rhannu'r gost o brynu'r pensiwn rydych chi wedi'i golli rhyngoch chi a'ch cyflogwr.

- Mi fyddwch chi'n talu un rhan o dair o'r gost
- Bydd eich cyflogwr yn talu dwy ran o dair o'r gost

Er mwyn rhannu'r gost, mae'n rhaid i chi ddewis prynu'r pensiwn coll yn ôl o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd yn ôl i'r gwaith (oni bai bod eich cyflogwr yn rhoi mwy o amser i chi).

Os ydych chi'n dewis prynu'r pensiwn coll yn ôl ar ôl 30 diwrnod (ac os nad yw'ch cyflogwr yn fodlon estyn y terfyn amser), bydd yn rhaid i chi dalu 100% o'r cyfraniadau pensiwn.

Beth am Absenoldebau heb awdurdod?

Ar gyfer unrhyw gyfnod o absenoldeb heb awdurdod e.e. streic, byddwch ond yn gallu prynu'r pensiwn coll drwy dalu'r gost lawn. Ni fydd eich cyflogwr yn gwneud unrhyw gyfraniad. Nid oes terfyn amser o 30 diwrnod i benderfynu prynu'ch pensiwn coll. Fodd bynnag, fe ddylech chi benderfynu cyn gynted â phosibl oherwydd defnyddir ffactorau oed i gyfrifo cost prynu pensiwn coll yn ôl.

Sut caiff cost prynu pensiwn coll ei chyfrifo?

Ar gyfer absenoldeb di-dâl awdurdodedig, caiff y gost ei chyfrifo yn defnyddio canllawiau Adran Actiwari'r Llywodraeth a'ch Cyflog Pensiynadwy Tybiedig. Mae'ch Cyflog Pensiynadwy

Tybedig yn gyfartaledd o'r cyfog pensiynadwy rydych chi wedi'i dderbyn yn y tri mis (neu 12 wythnos os cewch eich talu yn wythnosol) cyn y gostyngiad yn eich cyflog.

Ar gyfer absenoldeb di-dâl heb awdurdod, mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy rydych chi wedi'i golli yn ystod eich cyfnod o absenoldeb.

Sut ydych chi'n prynu pensiwn coll yn ôl?

I brynu'ch pensiwn coll yn ôl bydd arnoch chi angen canfod faint o'ch cyflog pensiynadwy rydych chi wedi'i golli yn ystod eich absenoldeb. Fe ddylech chi holi'ch cyflogwr am y wybodaeth hon, gan mai nhw sy'n gyfrifol am ei darparu i chi.

Fe ddylech chi wedyn ddefnyddio'r gyfrifiannell CPY ar-lein i ganfod cost prynu'ch pensiwn coll yn ôl:

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-lost-pension-calculator/> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os oes arnoch chi eisiau mynd ati i brynu eich pensiwn coll yn ôl, llenwch y ffurflen gais ar y gyfrifiannell CPY ac anfon copi ohoni i adran gyflogau eich cyflogwr a chopi i Gronfa Bensiynau Clwyd.

Gallwch brynu eich pensiwn coll yn ôl mewn sawl ffordd:

- Fel taliad lwmp-swm drwy'r adran gyflogau fel bod eich taliad yn denu rhyddhad treth
- Fel taliad lwmp-swm yn uniongyrchol i Gronfa Bensiynau Clwyd, ond bydd arnoch chi angen cysylltu â Chyllid a Thollau EF eich hun i dderbyn eich rhyddhad treth
- Yn fisol dros gyfnod o un flwyddyn drwy'r adran gyflogau, fel bod eich taliadau yn denu rhyddhad treth

Os ydych chi'n dewis talu bob mis, efallai y bydd yn rhaid i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig (chi fydd yn gorfod talu am hyn) i dystio bod eich iechyd yn weddol dda.

Beth os ydych chi'n penderfynu peidio â phrynu eich pensiwn coll yn ôl?

Bydd y pensiwn rydych chi'n ei gronni yn ystod y flwyddyn y buoch yn absennol yn llai. Mae blwyddyn y cynllun yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth. Mae hyn yn golygu y bydd y pensiwn sy'n daladwy pan fyddwch chi'n ymddeol (neu ar eich marwolaeth) yn llai. Gall hefyd effeithio ar y dyddiad y gallwch chi ymddeol a derbyn eich buddion pensiwn heb eu lleihau cyn eich oedran ymddeol arferol.

Beth sy'n digwydd os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol?

Os ydych chi'n talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mae'n rhaid i chi barhau i'w talu yn ystod eich absenoldeb (os oes gennych chi ddigon o gyflog i gwrdd â'r cyfraniadau).

Os ydych chi'n talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar gyfer yswiriant bywyd ychwanegol, bydd yn rhaid i chi wneud y trefniadau angenrheidiol i barhau i dalu hyn yn ystod eich absenoldeb, i wneud yn siŵr nad yw'ch yswiriant yn dod i ben. Os felly, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd.

Os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol rheolaidd neu gyfraniadau pensiwn ychwanegol i brynu pensiwn ychwanegol, neu os ydych chi'n prynu aelodaeth ychwanegol, mae'n rhaid i chi barhau i dalu am y rhain yn ystod eich absenoldeb, neu mi fydd eich contract yn dod i ben.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.